# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

**2016 dccc 4**

## RHAN 2

HENEBION HYNAFOL ETC

*Trosolwg*

### 2 Trosolwg o'r Rhan hon

(1) Mae'r Rhan hon yn ymwneud yn bennaf â gwarchod henebion hynafol yng Nghymru. Mae'n gwneud darpariaeth—

(a) i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud newidiadau penodol i'r Gofrestr o dan Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (p.46) ("Deddf 1979") neu ddiwygiadau penodol sy'n ymwneud â henebion yn y Gofrestr (adran 3);

(b) i roi gwarchodaeth statudol i heneb wrth i Weinidogion Cymru benderfynu pa un ai i gynnwys yr heneb yn y Gofrestr neu, yn achos heneb sydd eisoes wedi ei chynnwys yn y Gofrestr, i wneud diwygiadau penodol sy'n ymwneud â hi (adran 3);

(c) i Weinidogion Cymru adolygu eu penderfyniad i gynnwys heneb yn y Gofrestr neu i wneud diwygiadau penodol sy'n ymwneud â heneb yn y Gofrestr (adran 3);

(d) i ddiwygio'r weithdrefn sy'n ymwneud â chydsyniad heneb gofrestredig a'r ddarpariaeth ar gyfer digollediad am wrthod cydsyniad o'r fath (adrannau 5 i 10);

(e) i Weinidogion Cymru ymrwymo i gytundeb â pherchennog heneb sydd wedi ei chynnwys yn y Gofrestr ynghylch materion megis cydsyniad i waith gael ei wneud i'r heneb (adran 11);

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Trosolwg yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 25 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(f) i Weinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad gorfodi neu hysbysiad stop dros dro, neu wneud cais i lys am waharddeb, mewn achos sy'n ymwneud â gwaith penodol i heneb sydd wedi ei chynnwys yn y Gofrestr (adrannau 12 i 14);

(g) i addasu cymhwysiad troseddau penodol, gan gynnwys drwy greu amddiffyniad diwydrwydd dyladwy (adrannau 15 i 17);

(h) ynghylch y pŵer i gael mynediad i dir y credir bod heneb hynafol arno (adran 19);

(i) ynghylch yr amgylchiadau pan fo heneb yn y môr tiriogaethol i'w thrin fel pe bai yng Nghymru (adran 20);

(j) i alluogi cyflwyno drwy gyfathrebiadau electronig hysbysiadau a dogfennau eraill y mae'n ofynnol iddynt gael eu cyflwyno o dan Ddeddf 1979 neu yr awdurdodir iddynt gael eu cyflwyno o dan y Ddeddf honno (adran 21);

(k) i ddiwygio'r diffiniad o "monument" yn Neddf 1979 (adran 22).

(2) Mae'r Rhan hon hefyd yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru lunio a chynnal cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol (adran 18).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 41(1)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Trosolwg yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 25 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
– Act repealed by 2023 asc 3 Sch. 13 para. 193